

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran *** o Ddeddf ***
***, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Deddf Plant 2004
(Cronfa Ddata Addysg) (Cymru)
2020**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 29 o Ddeddf Plant 2004 ac maent yn gymwys i sefydlu a gweithredu cronfa ddata addysg yng Nghymru. Daw'r Rheoliadau i rym ar XXX.

Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sefydlu cronfa ddata addysg (rheoliad 3) a fydd yn cynnwys yr wybodaeth a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau mewn cysylltiad â phlant o oedran ysgol gorfodol sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol.

Bydd yn ofynnol i fwrdd iechyd lleol yng Nghymru ddatgelu i awdurdod lleol ar unrhyw adegau a bennir gan Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a bennir yn yr Atodlen ac sydd ar gael iddo (rheoliad 5). Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr wybodaeth yn y gronfa ddata yn gywir (rheoliad 6).

Mae rheoliad 7 yn manylu ar bwy y caniateir iddo gael mynediad at y gronfa ddata ac ar gyfer pa swyddogaethau addysg y gellid ei defnyddio.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: [], Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran *** o Ddeddf *** ***, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2020 Rhif (Cy.)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Deddf Plant 2004
(Cronfa Ddata Addysg) (Cymru)
2020**

Gwnaed ***

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 29 o Ddeddf Plant 2004(1) [a chyda chydysniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru(2)], yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Addysg) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar XX.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â sefydlu a gweithredu cronfa ddata o dan adran 29 o Ddeddf Plant 2004.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(1) 2004 p. 31.

(2) Gweler adran 29(12) o'r Ddeddf.

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw awdurdod lleol yng Nghymru;

ystyr “bwrdd iechyd lleol” (“*local health board*”) yw bwrdd iechyd lleol a sefydlwyd o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1);

ystyr “cofnod addysg” (“*education record*”) mewn perthynas â phlentyn (gan gynnwys plentyn nad yw’n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol neu sydd wedi marw) yw’r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gronfa ddata addysg ac sy’n ymwneud â’r plentyn hwnnw;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Plant 2004;

ystyr “y gronfa ddata addysg” (“*the education database*”) yw’r gronfa ddata sydd wedi ei sefydlu a’i gweithredu, neu sydd i’w sefydlu a’i gweithredu, gan awdurdod lleol o dan adran 29 o’r Ddeddf;

ystyr “plentyn” (“*child*”) yw plentyn o oedran ysgol gorfodol o fewn ystyr “compulsory school age” yn adran 8 o Ddeddf Addysg 1996(2);

mae i “rhiant” yr un ystyr â “parent” yn adran 576 o Ddeddf Plant 1996.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at berson sydd wedi ei gyflogi yn cynnwys person sydd wedi ei gyflogi pa un ai o dan gontract gwasanaeth neu gontract ar gyfer gwasanaethau a pherson sydd wedi ei secondio i’r awdurdod lleol o dan sylw ac mae cyfeiriadau at gyflogai i’w dehongli yn unol â hynny.

Sefydlu cronfa ddata addysg

3.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu cronfa ddata addysg sy’n cynnwys unrhyw wybodaeth o’r disgrifiadau a bennir yn yr Atodlen sy’n ymwneud â phob plentyn sy’n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

(2) Caiff y gronfa ddata gynnwys gwybodaeth am blentyn nad yw’n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw mwyach neu sydd wedi marw.

Cyfranogiad gan awdurdodau lleol

4.—(1) Rhaid i awdurdod lleol gymryd rhan yng ngweithrediad cronfa ddata addysg yn unol â’r Rheoliadau hyn.

(2) Os daw awdurdod lleol yn ymwybodol bod plentyn nad yw ar y gofrestr mewn ysgol yn preswyllo fel arfer bellach mewn awdurdod lleol arall (“yr awdurdod lleol derbyn”), neu fod hynny’n debygol o ddiwydd, rhaid iddo drosglwyddo cofnod addysg y

(1) 2006 p. 42.

(2) 1996 p. 56.

plentyn hwnnw i'r awdurdod lleol derbyn o fewn 28 o ddiwrnodau i'r dyddiad y daeth yn ymwybodol o'r amgylchiadau hynny.

Datgelu gwybodaeth i'w chynnwys mewn cronfa ddata addysg

5. Rhaid i fwrdd iechyd lleol ddatgelu i bob awdurdod lleol i'w chynnwys yn y gronfa ddata addysg ar unrhyw adegau a bennir gan Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a bennir yn yr Atodlen ac sy'n ymwneud â phlentyn sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw sydd ar gael i'r bwrdd iechyd lleol.

Y weithdrefn ar gyfer sicrhau cywirdeb gwybodaeth yn y gronfa ddata addysg

6. Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol fod cofnod addysg y mae'n gyfrifol amdano yn anghywir neu'n anghyflawn, neu y gall fod yn anghywir neu'n anghyflawn, rhaid i'r awdurdod gymryd camau rhesymol i gywiro neu gwblhau'r cofnod.

Mynediad at y gronfa ddata addysg

7.—(1) Dim ond person sydd wedi ei gyflogi mewn perthynas ag arfer gan neu ar ran awdurdod lleol y swyddogaethau a bennir ym mharagraff 2 y caniateir iddo gael mynediad at y gronfa ddata addysg at ddiben ychwanegu neu ddarllen gwybodaeth.

(2) Y swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 yw—swyddogaethau o dan—

- (a) Rhan 6 (derbyniadau ysgol, presenoldeb a ffioedd) o Ddeddf Addysg 1996;
- (b) adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu mewn perthynas â lles plant); ac
- (c) Rhan 2 (anghenion dysgu ychwanegol) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Enw

Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gronfa ddata addysg

1. Enw'r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol).

2. Mewn cysylltiad â chyfeiriad neu leoliad y plentyn—

- (a) cyfeiriad a chod post cyfredol y plentyn;
- (b) os nad oes unrhyw gyfeiriad hysbys cyfredol ar gyfer y plentyn ar unrhyw adeg, cyfeiriad hysbys diwethaf y plentyn; neu
- (c) datganiad nad oes unrhyw gyfeiriad hysbys ar gyfer y plentyn.

3. Rhywedd y plentyn neu os nad yw rhywedd y plentyn wedi ei bennu, datganiad i'r perwyl hwnnw.

4. Dyddiad geni'r plentyn.

5. Enw a manylion cyswllt unrhyw riant i'r plentyn.

6. Pan fo'r plentyn yn mynychu sefydliad addysgol sy'n ysgol a gynhelir yng Nghymru, enw neu rif yr ysgol honno.

7. Pan fo'r plentyn yn mynychu sefydliad addysgol nad yw'n ysgol a gynhelir, enw neu rif y sefydliad hwnnw.

8. Pan fo'r plentyn yn cael addysg ac eithrio mewn sefydliad addysgol, enw a manylion cyswllt person neu gorff sy'n darparu'r addysg honno.

9. Pan fo'r plentyn wedi marw, dyddiad marwolaeth y plentyn.